# Nodweddion Diddorol





Ⓐ Coed Cwm Cletwr - mae'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hwn yn goetir deri digoes ac ynn ar hyd yr Afon Cletwr. Mae blodau gwyllt megis bresych y cŵn a marddanadl melyn yn ffynnu, yn ogystal â rhedyn, mwsoglau, a llysiau'r afu.

Ymhlith yr adar y gallwch eu gweld y mae'r tingoch, y gwalch glas, a thelor y coed.

Ⓑ Bedd Taliesin. Mae hon yn garnedd gron o'r Oes Efydd gyda chistfedd (bocs carreg) ganolog. Yn ôl y chwedl, claddwyd Taliesin, bardd o'r chweched ganrif, yma. Yn ôl y llên gwerin leol, os treuliwch noson fan hyn, pan fyddwch yn deffro, byddwch naill ai'n fardd neu ynteu'n ynfyd.

Ⓒ Mae tŷ olwyn Bryn yr Arian yn un o lawer o adfeilion o ffyniant mwyngloddio plwm a chopr yn yr ardal yng nghanol y 19eg ganrif.



# Points of Interest





Ⓐ Coed Cwm Cletwr Site of Special Scientific Interest is a sessile oak and ash woodland situated along the Afon Clettwr. It is very rich in wild flowers such as dog's mercury and yellow archangel and also in ferns, mosses and liverworts.

Birds you might see include redstart, sparrowhawk and wood warbler.

Ⓑ Bedd Taliesin. This is a Bronze Age round cairn with a central cist (stone box) grave. According to legend, the sixth century Welsh poet, Taliesin is buried here. Local folklore has it that if you spend a night there you will awake a poet or mad.

Ⓒ Bryn yr Arian wheelhouse is just one of the remains of the mid 19th century lead and copper mining boom in the area.



© Lluniau/Pictures Jeremy Moore



# Taith Gerdded Tre'r Ddol

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Tre'r Ddol Walk




**Dechrau:** Tre'r Ddol
**Cyfeirnod Grid:** SN659 921
**Pellter:** 5.6km - 3.5 milltir
**Gradd:** Canolig
**Tirwedd:** Coetir, caeau, llwybrau cadarn a ffyrdd
**Mapiau:** Arolwg Ordnans Explorer - OL 23
**Lluniaeth:** Tafarn y Wildfowler, caffi a siop Cynfelin

1. Cychwynnwch i'r chwith o'r capel yn Nhre'r Ddol i ddilyn trac dynodedig. Yn fuan, trowch i'r dde heibio'r capel i ddilyn y llwybr i mewn i'r goedwig. Ewch yn syth ymlaen tan i'r llwybr hollti, wedyn trowch i'r dde i fynd trwy giât. Ewch yn syth ymlaen trwy ddwy giât cyn dringo rhan serth **A** i fynd o gwmpas troadau sydyn, gan adael y coetir trwy giât.
2. Dilynwch y trac o'ch blaen, ac ymlaen trwy fwlch yn y ffens i fynd yn syth ar draws cae ar hyd arglawdd dros nant a thrwy giât. Cerddwch i fyny trwy'r coed ac ymlaen wrth ochr ffens ar y dde gan ymuno â thrac. Ewch yn syth ymlaen trwy ddwy giât cyn mynd heibio fferm Gwar Cwm Uchaf i gyrraedd lôn tarmac.
3. Trowch i'r chwith ac wedyn i'r dde i fyny trac i fynd trwy giât. Dilynwch y llwybr trwy'r rhesi o goed i fyny nes i chi gyrraedd giât sy'n arwain at drac. Trowch i'r dde yn fan hyn i ddilyn y ffordd darmac trwy ddwy giât **B**. Wrth y gyffordd, ewch ymlaen i lawr y ffordd, gan anwybyddu troad ar y chwith tuag at fferm Pensarn i fynd i'r dde trwy giât. Anwybyddwch y troad ar y chwith a dilynwch y trac ar y dde i lawr trwy giât arall ger chwarel fach cyn troi i'r dde.
4. Dilynwch y trac trwy ail giât, gan droi i'r chwith ychydig cyn trydedd giât i ddringo camfa yng nghornel bellaf y cae. Cerddwch yn syth ymlaen gyda'r ffens ar y dde trwy ddwy giât ar hyd trac i gyrraedd hen adfeilion ar y chwith **C**.
5. Gan wynebu'r môr a chan gadw'r adfeilion ar y chwith, ewch i lawr y bryn tuag at arwyddbost ac ymlaen i arwyddbost arall wrth ffin y coetir. Dilynwch y llwybr i lawr trwy'r coed yn yr un cyfeiriad. Cyn cyrraedd giât, trowch i'r dde i lawr llwybr gyda'r ffens ar y chwith rhwng dwy domen. Ewch dros y gamfa gan gerdded i lawr y bryn i groesi camfa arall cyn troi i'r dde wrth gyffordd y traciau. Dilynwch y trac i'r chwith o gwmpas troad ysgubol ac i lawr i groesi trac y goedwig i ddilyn llwybr i lawr trwy'r coed.
6. Pan gyrhaeddwch waelod y coetir, trowch i'r dde i ddilyn y llwybr ar hyd ochr y coetir cyn mynd i fyny rhywfaint o risiau. Trowch i'r chwith ac ewch ymlaen at giât. Peidiwch â mynd trwy'r giât; yn hytrach, trowch i'r dde i ddilyn llwybr wrth ochr y goedwig. Pan gyrhaeddwch gyffordd yn y llwybr, trowch i'r chwith i fynd trwy giât cyn dychwelyd yr un ffordd i'r pentref.





# Taith Tre'r Ddol Walk




**Start:** Tre'r Ddol
**Grid Reference:** SN659 921
**Distance:** 5.6km - 3.5 miles
**Grade:** Moderate
**Terrain:** Woodland, fields, firm tracks and roads
**Maps:** OS Explorer - OL 23
**Refreshments:** Wildfowler pub, Cynfelin café and shop

1. Start to the *L* of the chapel in Tre'r Ddol to follow a waymarked track. Soon turn *R* past chapel to follow the path into the woods. Continue until you reach a fork in the path, then turn *R* through a *G*. Walk directly ahead through two *Gs*, before walking up a steep section **A** round sharp bends to exit the woodland through a *G*.
2. Follow the track ahead and on through an opening in the fence to walk directly across a field along a raised embankment over a stream and through a *G*. Walk up through the trees and ahead alongside a fence on the *R* to join a track. Continue ahead to go through two *Gs* before passing Gwar Cwm Uchaf farm to reach a tarmac lane.
3. Turn *L* and then *R* up a track to go through a *G*. Follow the tree-lined path upwards until you reach a *G* onto a track. Turn *R* here to follow the tarmac road through two *Gs* **B**. At the junction, continue down the road, ignoring a turning on the *L* for Pensarn Farm to go *R* through a *G*. Ignore turning on *L* and follow the *RH* track down through another *G* by a small quarry before turning *R*.
4. Follow the track through a second *G*, turning *L* just before a third *G* to climb a stile in the far corner of the field. Walk ahead with the fence on your *R* through 2 *Gs* along a track to reach an old ruin on your *L* **C**.
5. Facing the sea and keeping the ruin on your *L* walk downhill towards a marker post and then on to another at the edge of woodland. Follow the path down through the trees in the same direction. Before you reach a *G*, turn *R* down a path with the fence on your *L* between two tips. Go over *S* and walk downhill to cross another *S* before turning *R* at the track junction. Follow the track *L* around a sweeping bend, and down to cross over a forestry track to follow a path down through the trees.
6. When you reach the bottom of the woodland, turn *R* to follow the path along the edge of the woodland before eventually going up some steps. Turn *L* and continue to a *G*. Do not go through but bear *R* to follow a path along the side of the wood. When you arrive at a path junction, turn *L* to go through a *G*, before retracing your route back to the village.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014

© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014